

**GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
(LLECYNNAU PARCIO ODDI AR STRYD)
(SAFLE MAES PARCIO PENYRORSEDD
(LLYFRGELL) LLANGEFNI) 2016**

Trwy hyn mae Cyngor Sir Ynys Môn (a elwir "y Cyngor" o hyn ymlaen) trwy ei bwerau dan Adran 32, 35 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoli Traffig y Ffyrrd 1984, fel y newidiwyd ("Deddf 1984") a holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf yn gwneud y Gorchymyn canlynol i reoli defnydd y Maes Parcio yn yr Atodlen yma:

**RHAN I
CYFFREDINOL**

Enw a Chychwyn

1. Bydd i'r Gorchymyn hwn ddod i rym ar 18eg Tachwedd, 2016 a'i enwi fel Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (Llecynnau Parcio Oddi Ar Stryd) (Safle Maes Parcio Penyrorsedd (Llyfrgell) Llangefni) 2016

Ymgorfforwyd Cynlluniau Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (Llecynnau Parcio Oddi Ar Stryd) (Safle Maes Parcio Penyrorsedd (Llyfrgell) Llangefni) 2016 yn y Gorchymyn hwn.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, heblaw lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, ystyron yr ymadroddion canlynol yw'r hyn a roddwyd iddynt yn ôl eu trefn:

Ystyr "Bathodyn Pobl Anabl" yw bathodyn a gyhoeddwyd gan unrhyw Awdurdod Lleol yn unol â darpariaethau Rheoliadau Gorchymion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemtiadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000 neu fathodyn sy'n effeithiol dan y rheoliadau hynny fel pe bai'n fathodyn pobl anabl;

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF
ANGLESEY COUNTY COUNCIL
(OFF STREET PARKING PLACES)
(PENYRORSEDD (LIBRARY) CAR PARK
SITE, LLANGEFNI) ORDER 2016**

The County Council of The Isle of Anglesey (hereinafter called "the Council") in exercise of its powers under Section 32, 35 and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act, 1984, as amended ("the 1984 Act") and of all other enabling powers and after consultation with the Chief Constable of North Wales Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Act hereby makes the following Order to control the use of the Car Park referred to in the Schedule hereto:

**PART I
GENERAL**

Commencement and Citation

1. This Order shall come into operation on the 18th November, 2016 and may be cited as Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (Off Street Parking Places) (Penyrorsedd (Library) Car Park Site, Llangefni) Order 2016

The Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (Off Street Parking Places) (Penyrorsedd (Library) Car Park Site, Llangefni) Order 2016 Plans are incorporated into this Order.

Interpretation

2. In this Order, except where the context otherwise requires, the following expressions have the meanings respectively assigned to them:

"Disabled Persons' Badge" means a badge issued by any Local Authority in accordance with the provisions of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons (Wales) Regulations 2000 or a badge having effect under those regulations as if it were a disabled person's badge;

Ystyr "Cerbyd Nwyddau" yw cerbyd a adeiladwyd neu a addaswyd i'w ddefnyddio i gludo nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad, gydag uchder llawn heb fod yn fwy nag 1.85 metr a phwysau di-lwyth heb fod yn fwy na 2540 cilogram a heb fod yn tynnu ôl-gerbyd;

Mae "llwytho" yn golygu llwytho neu ddadlwytho cerbyd sydd ar dir y Cyngor ac ar fusnes y Cyngor, neu fel y bydd wedi ei awdurdodi gan y Cyngor.

Mae "Beic Modur" yn cyfeirio at feic modur unigol yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw feic modur sydd â char clun neu ôl-gerbyd, neu sydd â mwy na dwy olwyn;

Ystyr "Perchen nog" yw'r sawl y cofrestrwyd y cerbyd yn ei enw ar y pryd dan Ddeddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994;

Ystyr "Swyddog Parcio" yw rhywun a awdurdodwyd gan neu ar ran y Cyngor i oruchwyllo'r mannau parcio a gorfodi'r cyfyngiadau a osodwyd trwy'r Gorchymyn hwn;

Ystyr "cilmach barcio" yw rhan o fan parcio sy'n cael ei darparu ar gyfer gadael cerbyd o ddosbarth a bennwyd ac a ddangosir gyda marciau ar wyneb y man parcio neu a arwyddwyd neu a nodwyd fel arall gan arwyddion yn y man parcio;

Ystyr "Man Parcio" yw darn o dir fel sy'n cael ei ddangos ar y Cynllun ac a ddarparwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 32(1) y Ddeddf at ddiben parcio a heb ei gau (yn rhannol neu'n llawn) trwy Rybudd a godwyd arno trwy awdurdod y Cyngor;

Ystyr "Cerbyd Teithwyr" yw cerbyd a adeiladwyd neu a addaswyd yn unig i gludo teithwyr a'u heiddo;

Mae "Deilydd Caniatâd" yn golygu person sydd â chaniatâd parcio dilys yn ei feddiant mewn perthynas ag amodau defnyddio'r meysydd parcio yn y Gorchymyn hwn.

Mae "Deilydd Tocyn" yn golygu person sydd yn dal tocyn parcio dilys yng nghyswilt amodau defnyddio'r meysydd parcio yn y Gorchymyn

"Goods Vehicle" means a vehicle which is constructed or adapted for use for the carriage of goods or burden of any description, the overall height of which does not exceed 1.85 metres and the unladen weight of which does nor exceed 2540 kilograms and is not drawing a trailer;

"Loading" means the loading or unloading of a vehicle attending the Council's premises on Council business, or as authorised by the Council

"Motor Cycle" refers to a solo motor cycle only and excludes any motor cycle which has a side-car or trailer, or which has more than two wheels;

"Owner" means the person in whose name the vehicle was at that time registered under the Vehicle Excise and Registration Act 1994

"Parking Attendant" means a person authorised by or on behalf of the Council to supervise the parking places and enforce the restrictions imposed by this Order;

"Parking bay" means an area of a parking place which is provided for the leaving of a vehicle of a class specified and indicated by markings on the surface of the parking place or signed or otherwise indicated by signs in the parking place;

"Parking Place" means an area of land as shown on the Plan and provided by the Council pursuant to Section 32(1) of the Act for the purpose of vehicle parking and not closed (in part or in whole) by a Notice erected thereon by authority of the Council;

"Passenger Vehicle" means a vehicle constructed or adapted solely for the carriage of passengers and their effects;

"Permit Holder" means a person in possession of a valid parking permit applicable to the conditions of use of the car parks in this Order.

"Voucher Holder" means a person in possession of a valid parking voucher applicable to the conditions of use of the car

hwn.

Ystyr "Cosb" yw'r taliad a bennwyd gan y Cyngor dan Adran 43 ac Adran 82(1) o Ddeddf 1991, sydd i'w dalu i'r Cyngor yn dilyn rhoi Rhybudd Talu Cosb a chyn pen 28 diwrnod ar ôl rhoi'r Rhybudd hwnnw;

Ystyr "Rhybudd Talu Cosb" yw rhybudd a gyhoeddir neu a gyflwynir gan Swyddog Parcio yn unol â darpariaethau Adran 43 ac Adran 66 o Ddeddf 1991;

Ystyr "Man Perthnasol" yw

(a) o ran cerbyd sy'n dangos bathodyn rhywun anabl -

(i) yn achos cerbyd gyda dangosfridd neu banel ffasiog, bod y bathodyn yn cael ei ddangos arno fel bod Rhan 1 y bathodyn yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd heb ddangosfridd neu banel ffasiog, bod y bathodyn yn cael ei ddangos mewn lle amlwg ar y cerbyd fel bod Rhan 1 y bathodyn yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd

(b) o ran cerbyd sy'n dangos hawlen neu daleb

(i) bod y deleb neu hawlen yn cael eu dangos ar wyneb mewnol y sgrin wynt neu mewn man sydd i'w weld yn eglur fel eu bod yn wynebu ymlaen ac yn hawdd eu gweld a'u darllen o flaen neu ochr y cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd sydd heb fod â sgrin wynt dryloyw, bod y daleb neu hawlen yn cael eu dangos ar flaen y cerbyd yn wynebu ymlaen ac i'w gweld yn eglur.

Mae "Ymwelydd" yn golygu person sy'n mynchu eiddo'r Cyngor ar fusnes y Cyngor.

3. Heblaw lle bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd i unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl rifedig gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn

parks in this Order.

"Penalty Charge" means the charge set by the Council under Section 43 and Section 82(1) of the 1991 Act, which is to be paid to the Council following the issue of a Penalty Charge Notice and within 28 days of the issue of that Notice;

"Penalty Charge Notice" means a notice issued by or served by a Parking Attendant pursuant to the provisions of Section 43 and Section 66 of the 1991 Act;

"Relevant Position" means

(a) in respect of a vehicle displaying a disabled person's badge –

(i) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited thereon so that Part 1 of the badge is legible from outside the vehicle; or

(ii) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position on the vehicle so that Part 1 of the badge is legible from outside the vehicle

(b) in respect of a vehicle displaying a permit or voucher

(i) the voucher or permit is exhibited on the inside surface of the windscreen or in a clearly visible position so that it is facing forwards and can be easily seen and read from the front or side of the vehicle; or

(ii) in the case of a vehicle which is not fitted with a transparent windscreen, the voucher or permit is exhibited on the front of the vehicle facing forwards and clearly visible.

"Visitor" means a person attending the Council premises on Council business.

3. Except where the context requires otherwise, any reference in this Order to a numbered Article shall, be construed as a reference to the Article bearing that number

y Gorchymyn hwn ac mae unrhyw gyfeiriad at Gynllun yn gyfeiriad at Gynllun a ymgorfforwyd yn y Gorchymyn hwn.

4. Bydd i unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, cymhwyswyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd trwy neu'n effeithiol yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

5. Bydd Deddf Ddehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn.

RHAN II

DYNODI A DEFNYDDIO MANNAU PARCIO

Dynodi

6. Gellir defnyddio pob darn o dir fel y dangosir ar y Cynllun, yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, fel man i adael cerbydau awdurdodedig o'r fath ddosbarthiadau, yn y fath sefyllfaoedd, ar y fath ddiwrnodau, yn ystod y fath oriau, ac am y fath gyfnod ac sy'n cael eu hysbysebu ar y safle.

Dosbarth a sefyllfa cerbyd

7. Lle bo man parcio'n cael ei ddisgrifio trwy rybudd ar y safle fel un sydd ar gael i gerbydau o ddosbarth penodedig neu gerbydau i'w gadael mewn lleoliad penodedig, ni fydd i neb ganiatáu i gerbyd aros yn y man parcio hwnnw neu yn unrhyw gilfach barcio o fewn y man parcio,

- (i) oni bai ei fod o'r dosbarth penodedig;
- (ii) os yw wedi ei barcio y tu hwnt i farciau'r gilfach barcio neu
- (iii) mewn sefyllfa heblaw'r un a bennwyd.
- (iv) oni bai ei fod yn arddangos caniatâd parcio dilys neu docyn neu ei fod wedi ei awdurdodi mewn rhyw ffordd arall.

Cilfachau Llwytho a Chilfachau i Ymwelwyr

8. Bydd pob cilfach llwytho a chilfachau i ymwelwyr wedi'i marcio'n glir ar y safle.

Cyfnod aros hwyaf

9. Lle bo man parcio'n cael ei ddisgrifio trwy

in this Order and any reference to a Plan is a reference to a Plan incorporated into this Order.

4. Any reference in this Order to any enactment shall be construed as a reference to that enactment as amended, applied, consolidated, re-enacted by or as having effect by virtue of any subsequent enactment.

5. The Interpretation Act 1978 shall apply for the interpretation of this Order.

PART II

DESIGNATION AND USE OF PARKING PLACES

Designation

6. Each area of land as shown on the Plan may be used, subject to the provisions of this Order, as a place to leave vehicles of such classes, in such positions, on such days, during such hours, and for such period/s as are advertised on site.

Class and position of vehicle

7. Where by notice on site a parking place is described as available for vehicles of a specified class or vehicles to be left in a specified location, no person shall permit a vehicle to wait in that parking place or in any parking bay within the parking place,

- (i) unless it is of the specified class;
- (ii) if it is parked beyond the bay markings or
- (iii) in a position other than that specified.
- (iv) unless it displays a valid parking permit or voucher or is otherwise authorised.

Loadings Bays and Visitor Bays

8. Each loading bay and visitor bay will be clearly marked on site.

Maximum period of stay

9. Where by notice on site a parking place

rybudd ar y safle fel un sydd ar gael ar ddiwrnodau penodedig, yn ystod oriau penodedig neu am gyfnod aros hwyaf, ni fydd i neb ganiatáu i gerbyd aros yn y man parcio hwnnw ar unrhyw ddiwrnod, yn ystod y fath oriau neu am unrhyw gyfnod arall neu hwy na'r rhai a bennwyd.

Cyfnod dim dychwelyd

10. Lle disgrifir man parcio trwy rybudd ar y safle fel un â chyfnod pryd na chaiff cerbyd ddychwelyd iddo, ni fydd i neb ganiatáu i gerbyd aros yn y man parcio hwnnw ar unrhyw ddiwrnod, yn ystod y fath gyfnod.

Parcio Tocyn a Chaniatâd

11 Ni fydd dim yn Erthyglau 9 a 10 yn atal cerbyd sy'n arddangos

1. Caniatâd Parcio dilys ar ddydd Llun i ddydd Gwener, neu
2. Tocyn Parcio dilys ar ddyddiau Sadwrn a Sul,

rhag cael ei barcio yn y safle perthnasol yn y mannau parcio perthnasol fel yr hysbysebwyd ar y safle.

Cilfachau parcio pobl anabl

12. Ni fydd i neb beri neu ganiatáu i gerbyd barcio mewn cilfach barcio a farciwyd ar gyfer Pobl Anabl oni bai fod y cerbyd yn dangos Bathodyn Rhywun Anabl yn y man perthnasol a bod y cerbyd yn union cyn neu yn union ar ôl parcio wedi cael ei ddefnyddio neu ar fin cael ei ddefnyddio gan bwy bynnag a gafodd y bathodyn.

Cilfachau parcio beiciau modur

13. Ni fydd i neb beri neu ganiatáu i gerbyd barcio mewn cilfach barcio a farciwyd ar gyfer beiciau modur oni bai fod y cerbyd yn feic modur.

Pŵer i gau neu atal mannau parcio

14. Ni fydd dim yn y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor trwy ddangos rhybudd, arwydd neu rwystyr yn y man parcio:

is described as available on specified days, during specified hours or for a maximum period of stay, no person shall permit a vehicle to wait in that parking place on any day, during such hours or for any period other or longer than those specified.

Period of no return

10. Where by notice on site a parking place is described as having a period within which a vehicle may not return, no person shall permit a vehicle to wait in that parking place on any day, during such period.

Permit and Voucher Parking

11. Nothing in Articles 9 and 10 shall preclude a vehicle displaying,

1. A valid Parking Permit on Monday to Friday or
2. A valid Parking Voucher on Saturdays and Sundays,

from being parked in the relevant position in the relevant parking places as advertised on site.

Disabled person's parking bays

12. No person shall cause or permit a vehicle to park in a parking bay marked for Disabled Persons unless the vehicle displays a Disabled Person's Badge in the relevant position and immediately before or immediately after the act of parking the vehicle has been or is about to be used by the person(s) in respect of whom the badge has been issued.

Motor cycle parking bays

13. No person shall cause or permit a vehicle to park in a parking bay marked for motor cycles unless the vehicle is a motor cycle.

Power to close or suspend parking places

14. Nothing in this Order shall prevent the Council by notice, sign or barrier displayed in the parking place:

- (i) rhag cau'r man parcio neu unrhyw ran ohono am unrhyw gyfnod; a/neu
- (ii) rhag neilltu'o'r man parcio neu unrhyw ran neu rannau ohono bob dydd neu ar ddiwrnodau arbennig neu yn ystod rhai rhannau o ddiwrnodau i'w ddefnyddio'n unig gan gerbydau neu sefydliadau arbennig.

15. Felly bydd i unrhyw un sy'n atal defnyddio man parcio neu unrhyw ran ohono yn unol â darpariaethau Erthygl 14 osod neu beri gosod rhybudd neu arwydd traffig yn neu ar bwys y man parcio hwnnw neu'r rhan honno ohono yn dangos bod defnyddio'r man parcio hwnnw neu'r rhan honno ohono yn cael ei atal a bod cerbydau'n cael eu gwahardd rhag aros.

16. Ni fydd i neb beri neu ganiatáu gadael cerbyd mewn man parcio neu unrhyw ran ohono yn ystod y fath gyfnodau ag yr ataliwyd defnyddio'r man parcio hwnnw neu'r rhan honno ohono neu yn ystod y fath gyfnod ag y gosodwyd rhybudd neu arwydd traffig ynddo neu ar ei bwys gan neu ar ran y Cyngor yn unol â'r Erthygl flaenorol.

RHAN III ADLEOLI A SYMUD CERBYDAU

Argyfngau

17. Gall Swyddog Parcio, rhywun a awdurdodwyd gan y Cyngor neu Swyddog yr Heddlu mewn lifrai, gan ddefnyddio'r fath fesurau ag sy'n briodol, symud neu beri symud yn achos argywng unrhyw gerbyd a adawyd mewn man parcio i unrhyw fan y bydd yn ystyried sy'n addas.

Cadw'n ddiogel

18. Bydd i unrhyw un sy'n symud cerbyd o fan parcio dan yr Erthyglau blaenorol wneud y fath drefniadau ag a fydd yn angenrheidiol o fewn rheswm i ddarparu ar gyfer cadw'r cerbyd yn ddiogel.

- (i) from closing the parking place or any part thereof for any period; and/or
- (ii) from setting aside the parking place or any part or parts thereof on all days or on certain days or during certain parts of days for use only by particular vehicles or organisations.

15. Any person suspending the use of a parking place or any part thereof in accordance with the provisions of Article 14 shall thereupon place or cause to be placed in or adjacent to that parking place or that part thereof a notice or traffic sign indicating that the use of that parking place or that part thereof is suspended and that waiting by vehicles is prohibited.

16. No person shall cause or permit a vehicle to be left in a parking place or any part thereof during such periods that the use of that parking place or that part thereof is suspended or during such period as there is in or adjacent thereto a notice or traffic sign placed by or on behalf of the Council in pursuance of the preceding Article.

PART III RELOCATION AND REMOVAL OF VEHICLES

Emergencies

17 A Parking Attendant, a person authorised by the Council or a Police Constable in uniform may, using such measures as are appropriate, move or cause to be moved in the case of an emergency to any place he/she thinks fit, any vehicle left in a parking place.

Safe keeping

18. Any person removing a vehicle from a parking place under the preceding Articles shall make such arrangements as may be reasonably necessary to provide for the safe keeping of the vehicle

RHAN IV

DARPARIAETHAU ERAILL

Diffodd y peiriant a gosod y brêcs

19. Bydd i yrrwr cerbyd modur sy'n defnyddio man parcio ddiffodd y peiriant cyn gynted ag y bo'r cerbyd yn y man parcio a pheidio â thanio'r peiriant heblaw pan fydd ar fin newid sefyllfa'r cerbyd yn y man parcio neu ei adael;

Dull parcio ôl-gerbydau

20. Ni fydd i yrrwr cerbyd sy'n tynnu ôl-gerbyd ganiatáu i'r cerbyd neu'r ôl-gerbyd aros mewn man parcio oni bai iddynt gael eu datgysylltu ac, at ddibenion y Gorchymyn hwn, bydd i'r cerbyd a'r ôl-gerbyd gael eu hystyried fel cerbydau ar wahân gyda gyrrwr y cerbyd arweiniol yn cael ei ystyried fel gyrrwr y ddau gerbyd.

Trwsio cerbydau mewn manau parcio

21. Ni fydd i neb, tra bo cerbyd mewn man parcio, ganiatau gwneud unrhyw waith cynnal a chadw neu drwsio arno heblaw fel y gall fod ei angen i alluogi symud y cerbyd o'r man parcio.

Treth ac Yswiriant Cerbydau

22. Ni fydd i neb ganiatau i unrhyw gerbyd aros mewn man parcio:

- (i) oni bai fod y cerbyd yn dangos trwydded gyfredol a gyhoeddwyd yn unol â darpariaethau Deddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994;
- (ii) oni bai fod y fath bolisi yswiriant ag sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 mewn perthynas â defnyddio'r cerbyd gan y gyrrwr;

Mynediad a Gadael

23. Lle codwyd arwyddion neu lle gosodwyd marciau arwyneb at ddiben nodi'r mynedfeydd i neu allanfeydd o'r man parcio; neu ddangos bod cerbyd i symud i gyfeiriad penodedig, ni ddylai neb yrru neu beri gyrru unrhyw gerbyd;

- (ii) i gyfeiriad heblaw'r un a benwyd, yn ôl fel y

PART IV

OTHER PROVISIONS

Stop engine and apply brakes

19. The driver of a motor vehicle using a parking place shall stop the engine as soon as the vehicle is in the parking space and shall not start the engine except when about to change the position of the vehicle in or to depart from the parking place;

Manner of parking of trailers

20. The driver of a vehicle drawing a trailer shall not permit the vehicle or the trailer to wait in a parking place unless they have been disconnected, and for the purposes of this Order the vehicle and the trailer shall be deemed to be separate vehicles and the driver of the leading vehicle shall be deemed to be the driver of both of the vehicles.

Repair of vehicles in parking places

21. No person shall, while a vehicle is in a parking place, permit the carrying out of any work of maintenance or repair thereto except such as may be necessary to enable the vehicle to be moved from the parking place.

Vehicle Tax and Insurance

22. No person shall permit any vehicle to wait in a parking place:

- (i) unless the vehicle displays a current licence issued in accordance with the provisions of the Vehicle Excise and Registration Act 1994;
- (ii) unless there is in relation to the use of the vehicle by the driver such a policy of insurance as complies with requirements of the Road Traffic Act 1988;

Entry and Exit

23. Where signs are erected or surface markings are laid for the purpose of indicating the entrances to or exits from the parking place; or indicating that a vehicle proceed in a specified direction, no person should drive or cause to be driven any vehicle;
(ii) in a direction other than that specified, as

- bo'n digwydd;
- (iii) Mewn modd neu ar gyflymder fel ag i achosi perygl i ddefnyddwyr eraill y man parcio.

- the case may be;
- (iii) In a manner or at a speed so as to cause danger to other users of the parking place.

Defnyddio cerbydau a mannau parcio

24. Ni fydd i neb mewn man parcio:

- (i) heb ganiatâd ysgrifenedig pendant y Cyngor, ddefnyddio cerbyd mewn cysylltiad â gwerthu unrhyw nwydd, gan gynnwys y cerbyd ei hun, i unrhyw un yn neu gerllaw'r man parcio neu mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig llogi medr neu wasanaethau yn unrhyw gymhwyster arall;
- (ii) ganu unrhyw gorn neu offeryn tebyg arall heblaw pan fydd ar fin newid sefyllfa'r cerbyd yn y man parcio neu ei adael;
- (iii) heblaw gyda chaniatâd neu yn ôl cyfarwyddyd Swyddog Parcio neu rywun a awdurdodwyd gan y Cyngor neu swyddog yr heddlu mewn lifrai, yrru unrhyw gerbyd heblaw at ddiben gadael y cerbyd yn y man parcio yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu at ddiben gadael y man parcio neu at ddiben ymweld ag unrhyw safle amwynder yn y man parcio;
- (iv) ddefnyddio unrhyw ran o'r man parcio neu gerbyd mewn man parcio heb ganiatâd ysgrifenedig pendant y Cyngor;
- (a) at ddibenion cysgu neu wersylla; at benwan cysgu neu wersylla, neu aros dros nos.
- (b) at ddibenion coginio;
- (c) at ddiben golchi, glanhau neu wasanaethu unrhyw gerbyd neu ran ohono heblaw'r hyn sy'n angenrheidiol o fewn rheswm i alluogi i'r cerbyd hwnnw adael y man parcio;
- (v) ddefnyddio'r man parcio hwnnw yn unig fel dull o symud o un ffordd i un arall;
- (vi) ddodi neu adael unrhyw gerbyd, ôl-gerbyd, neu unrhyw beth oedd yn ffurio rhan o

Use of vehicles and parking places

24. No person shall in a parking place:

- (i) without the express written permission of the Council, use a vehicle, in connection with the sale of any article, including the vehicle itself, to any person in or near the parking place or in connection with the selling or offering for hire of skill or services in any other capacity;
- (ii) sound any horn or other similar instrument except when about to change the position of the vehicle in or to depart from the parking place;
- (iii) except with the permission or at the direction of a Parking Attendant or a person authorised by the Council or a police constable in uniform, drive any vehicle other than for the purpose of leaving the vehicle in the parking place in accordance with the provisions of this Order or for the purpose of departing from the parking place or for the purpose of visiting any amenity site in the parking place;
- (iv) use any part of the parking place or a vehicle in a parking place without the express written permission of the Council for:
- (a) sleeping or camping purposes; or overnight stay.
- (b) cooking purposes;
- (c) the purpose of washing, valeting or servicing any vehicle or part thereof other than is reasonably necessary to enable that vehicle to depart from the parking place;
- (v) use that parking place solely as a means of passage proceeding from one road to another;
- (vi) deposit or leave any vehicle, trailer, or anything which formed part of a vehicle

gerbyd neu ôl-gerbyd, neu unrhyw drugareddau, ysbwriel neu unrhyw beth er mwyn ymadael ag ef yno.

(vii) floeddio'n ddireswm neu wneud unrhyw sŵn fel arall i beri aflonyddwch neu annifyrrwch i ddefnyddwyr y man parcio neu drigolion neu ddeiliad eraill adeiladau cyfagos;

(viii) weithredu mewn modd sy'n peri poendod neu berygl i unrhyw un sy'n defnyddio'r maes parcio, preswylydd neu rywun arall;

(ix) godi neu beri neu ganiatáu codi unrhyw babell, bwth, stondin, adeilad neu adeiledd arall;

(x) gynnau neu beri cynnau tân;

RHAN V CYFRIFOLDEBAU / COSBAU

Atebolrwydd

25. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros golled neu niwed i gerbydau neu eiddo arall a adawyd yn unrhyw un o fannau parcio'r Cyngor y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo.

RHAN VI TORRI RHEOLAU A THALU COSB

Torri rheolau

26. Os caiff cerbyd ei adael mewn man parcio a ddangosir ar y Cynllun heb gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn, bydd toriad wedi digwydd a bydd cosb yn daladwy. Yna gall Swyddog Parcio gyflwyno Rhybudd Talu Cosb yn dangos y wybodaeth sydd ei hangen dan Ddeddf 1991 yn unol â gofynion Deddf 1991.

Rhybudd Talu Cosb

27. Yn achos cerbyd y gall cosb fod yn daladwy ar ei gyfer, bydd yn ddyletswydd ar Swyddog Parcio i osod Rhybudd mewn lle amlwg ar y cerbyd sydd i gynnwys y manylion canlynol:

(i) Ar ba sail y mae'r Swyddog Parcio'n credu

or trailer, or any rubbish, litter or anything with the purpose of abandoning it there.

(vii) wantonly shout or otherwise make any noise to cause disturbance or annoyance of users of the parking place or residents or other occupiers of adjacent premises;

(viii) act in a manner to cause nuisance or danger to any car park user, resident or other person;

(ix) erect or cause or permit to be erected, any tent, booth, stand, building or other structure;

(x) light or cause to be lit a fire;

PART V LIABILITIES / PENALTIES

Liability

25. The Council accepts no liability for the loss or damage to vehicles or other property left in any of the Council's parking places to which this Order applies.

PART VI CONTRAVENTION AND PENALTY CHARGE

Contravention

26. If a vehicle is left in a parking place shown on the Plan without complying with the requirements of this Order, a contravention shall have occurred and a penalty charge shall be payable. A Penalty Charge Notice showing the information required by the 1991 Act may then be issued by a Parking Attendant in accordance with the requirements of the 1991 Act.

Penalty Charge Notice

27. In the case of a vehicle in respect of which the penalty charge may have been incurred, it shall be the duty of a Parking Attendant to attach to the vehicle in a conspicuous position a Notice which shall include the following particulars:

(i) The grounds on which the Parking

- bod cosb yn daladwy mewn perthynas â'r cerbyd;
- (ii) Swm y gosb sy'n daladwy;
 - (iii) Bod rhaid talu'r gosb cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y Rhybudd;
 - (iv) y bydd y gosb sydd i'w thalu'n cael ei gostwng yn ôl y gyfran benodedig os bydd y gosb yn cael ei thalu cyn diwedd cyfnod o 14 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y Rhybudd;
 - (v) y gall yr Awdurdod Lleol gyflwyno Rhybudd i'r perchennog i bwy bynnag sy'n ymddangos fel perchennog y cerbyd os nad yw'r gosb yn cael ei thalu cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod;
 - (vi) y cyfeiriad lle rhaid anfon taliad y gosb.

Yn isadran (iv) uchod ystyr "cyfran benodedig" yw'r fath gyfran, berthnasol i holl achosion, ag y bydd yn cael ei phenderfynu gan yr Awdurdodau Lleol yn gweithredu trwy Gydbwyllgor y Gwasanaeth Cenedlaethol Dyfarnu ar Barcio.

Cyfngiad ar dynnu rhybuddion

28. Ni fydd i Rybudd talu cosb a osodwyd ar gerbyd yn unol â'r Erthygl flaenorol gael ei dynnu neu ymyrryd ag ef heblaw gan neu dan awdurdod:

- (i) y perchennog, neu rywun â gofal dros, y cerbyd;
- (ii) y Cyngor dros y fan lle cafwyd hyd i'r cerbyd dan sylw.

Dull o dalu'r gosb

29. Bydd i'r gosb gael ei thalu yn unol â'r cyfarwyddiadau sydd ar y Rhybudd Talu Cosb, o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd talu cosb un ai;

gyda siec, drafft banc, archeb arian neu archeb bost i'w danfon neu anfon drwy'r post fel y mynegwyd ar y rhybudd talu cosb, neu

mewn arian parod, fel y mynegwyd ar y rhybudd talu cosb yn bersonol yn unrhyw siop Allpay sy'n derbyn taliadau o'r fath, neu

- Attendant believes that a penalty charge is payable with respect to the vehicle;
- (ii) The amount of the penalty charge which is payable;
- (iii) That the penalty charge must be paid before the end of the period of 28 days beginning with the date of the Notice;
- (iv) that if the penalty charge is paid before the end of the period of 14 days beginning with the date of the Notice, the amount of the penalty charge will be reduced by the specified proportion;
- (v) that if the penalty charge is not paid before the end of the 28 day period a Notice to the owner may be served by the Local Authority on the person appearing to them to be the owner of the vehicle;
- (vi) the address to which payment of the penalty charge must be sent.

In sub-section (iv) above "specified proportion" means such proportion, applicable to all cases, as may be determined by the Local Authorities acting through the Joint Committee of the National Parking Adjudication Service.

Restriction on removal of notices

28. A penalty charge Notice fixed to a vehicle in accordance with the preceding Article shall not be removed or interfered with except by or under the authority of:

- (i) the owner, or person in charge of, of the vehicle;
- (ii) the Council for the place in which the vehicle in question was found.

Manner of Payment of penalty charge

29. The penalty charge shall be paid in accordance with the instructions contained on the Penalty Charge Notice, within 28 days of the issue of the penalty charge notice either;

by cheque, bankers' draft, money order or postal order delivered or sent by post as indicated on the penalty charge notice, or

In cash, as indicated on the penalty charge notice in person at any Allpay outlet which accepts such payments, or

gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd dros y ffôn gan ddefnyddio'r rhif a nodwyd ar y rhybudd talu cosb

Ond, os bydd y cyfryw 28ain diwrnod yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd y gyfryw Adran neu swyddfa ar gau, bydd y cyfnod ar gyfer talu'r gyfryw gosb fel y manylir ar y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei ymestyn tan 16:00 ar y diwrnod llawn nesaf pan fydd y gyfryw Adran ar agor.

30. Os bydd y gosb yn cael ei thalu cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad cyflwyno'r Rhybudd, bydd maint y gosb yn gostwng yn ôl y gyfran benodedig.

31. Os nad yw'r perchennog yn talu'r gosb erbyn diwedd y cyfnod 28 diwrnod, fe all Rhybudd i'r Perchennog gael ei gyhoeddi ac, os nad yw'r taliad yn cael ei wneud o fewn 28 diwrnod ychwanegol, fe all gael ei gynyddu 50% wrth gyhoeddi dystysgrif taliad yn unol â darpariaethau paragraff 6 o atodlen 6 i Ddeddf 1991. Gall parhau i beidio â thalu'r gosb beri dyfarniad yn y Llys Sirol yn erbyn y perchennog i alluogi i'r Cyngor adennill y taliadau dyledus.

32. Bydd i'r taliad gael ei dderbyn erbyn 16:00 fan bellaf ar yr 28ain diwrnod yn dilyn y diwrnod pryd y cafwyd y fath Gosb neu'r 14eg diwrnod yn dilyn y diwrnod pryd y cafwyd y Gosb os yw'r gosb ostyngol yn cael ei thalu.

Ond os bydd y cyfryw 28ain neu 14eg diwrnod yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd swyddfeydd Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, neu fan penodedig arall ar gau, bydd y cyfnod ar gyfer talu'r gyfryw Gosb i'r Cyngor yn cael ei ymestyn tan 16:00 ar y diwrnod llawn nesaf y bydd swyddfeydd Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, neu fan penodedig arall ar agor.

by credit card or debit card over the phone using the number specified on the penalty charge notice

Provided that, if the said 28th day falls upon a day on which the said Department or office is closed, the period within which payment of the said charge shall be made as detailed on the Penalty Charge Notice, shall be extended until 16:00 on the next full day on which the said Department is open.

30. If the penalty charge is paid before the end of the period of 14 days beginning with the date of issue of the Notice, the amount of the penalty charge will be reduced by the specified proportion.

31. If the owner fails to pay the penalty charge by the end of the 28 day period, a Notice to Owner may be served; and if the charge is then not paid within a further 28 days it may be increased by 50% on the issue of a charge certificate in accordance with the provisions of paragraph 6 of schedule 6 of the 1991 Act. Continuing failure to pay the penalty charge may result in a judgement in the County Court against the owner to enable the Council to recover the payments due.

32. Payment shall be received not later than 16:00 on the 28th day following the day on which such Penalty Charge was incurred or the 14th day following the day on which the Charge was incurred if the reduced charge is paid.

Provided that if the said 28th or 14th day falls upon a day on which the Wales Penalty Processing Partnership offices, or other nominated place are closed, the period within which payment of the said Penalty Charge shall be made to the Council shall be extended until 16:00 on the next full day on which the Wales Penalty Processing Partnership Offices, or other nominated place are open.

Arwyddion fel Tystiolaeth

33. Bydd y manylion a roddwyd yn y Rhybudd Talu Cosb a osodwyd ar gerbyd yn unol â'r

33. The particulars given in the Penalty Charge Notice attached to a vehicle in

Erthygl hon yn cael eu trin fel tystiolaeth yn unrhyw achos perthnasol i beidio â thalu Cosb o'r fath.

RHAN VII **GWAREDU CERBYDAU**

Gwaredu cerbydau a adawyd mewn mannau parcio

34. Gall y Cyngor werthu neu waredu fel arall unrhyw gerbyd sydd wedi cael, neu a allai ar unrhyw adeg gael, ei symud o fan parcio yn unol ag Erthygl 17, os yw'n ymddangos yr ymadawyd â'r cerbyd, ond na fydd y pŵer gwaredu hwn yn cael ei arfer oni bai fod y Cyngor wedi cymryd y fath rai o'r camau canlynol ag sy'n berthnasol i'r cerbyd dan sylw, ac yr aeth cyfnod o chwe wythnos heibio yn dechrau gyda chymryd y cyntaf o'r camau hynny.

35. Lle bo nod cofrestru ar y cerbyd bydd i'r Cyngor ddarganfod gan y corff priodol enw a chyfeiriad pwy bynnag sy'n gediwad cofrestredig y cerbyd yn unol â Deddf Cerbydau (Ecseis) 1971, oni bai fod y Cyngor yn fodlon bod gwir berchennog y cerbyd wedi hysbysu ei hun iddo.

36. Lle bo'r Cyngor, yn rhinwedd Erthyglau 35, 37 a 38, yn ymwybodol o enw a chyfeiriad rhywun sy'n ymddangos all fod yn berchennog y cerbyd, bydd yn anfon Rhybudd at y cyfryw un yn y cyfeiriad hwnn gan ddweud mai bwriad y Cyngor yw gwerthu neu waredu'r cerbyd fel arall (fydd yn cael ei ddisgrifio'n ddigonol yn y Rhybudd) ar neu ar ôl dyddiad penodol (na fydd yn llai na phythefnos ar ôl dyddiad y Rhybudd a sut bynnag heb fod yn gynharach na chwe wythnos ar ôl dyddiad y cam cyntaf a gymrwyd gan y Cyngor dan y Rhan hon o'r Gorchymyn hwn) oni bai ei fod yn y cyfamser yn cael ei symud gan neu ar ran y cyfryw un o'r fath le ag y bydd y Cyngor yn ei bennu yn y cyfryw Rybudd neu o'r fath le ag y gall y Cyngor wedyn yn ei hysbysu yn ysgrifenedig i'r cyfryw un.

37. Os bydd unrhyw un yr anfonir Rhybudd iddo/iddi yn unol ag Erthygl 36 yn hysbysu'r Cyngor o enw a chyfeiriad rhywun arall y mae

accordance with this Article shall be treated as evidence in any proceedings relating to failure to pay such Penalty Charge.

PART VII **DISPOSAL OF VEHICLES**

Disposal of vehicles abandoned in parking places

34. The Council may sell or otherwise dispose of a vehicle which has been, or could at any time be, removed from a parking place pursuant to Article 17, if the vehicle appears to have been abandoned, provided that this power of disposal shall not be exercisable unless the Council has taken such of the following steps as are applicable to the vehicle in question, and there has elapsed a period of six weeks beginning with the taking of the first of those steps.

35. Where the vehicle carries a registration mark the Council shall ascertain from the appropriate body the name and address of the person who is the Registered Keeper of the vehicle pursuant to the Vehicles (Excise) Act 1971, unless the Council is satisfied that the true owner of the vehicle has identified himself to it.

36. The Council shall, where it is by virtue of Articles 35, 37 and 38, aware of the name and address of a person who it appears may be the owner of the vehicle, send a Notice to that person at that address stating that it is the intention of the Council to sell or otherwise dispose of the vehicle (which shall be sufficiently described in the Notice) on or after a specified date (which shall not be less than two weeks from the date of the Notice and in any event not earlier than six weeks from the date of the first step taken by the Council under this Part of this Order) unless it is in the meantime removed by or on behalf of that person from such place as is specified by the Council in the said Notice or from such place as may be subsequently notified in writing by the Council to that person.

37. If any person to whom a Notice is sent in accordance with Article 36 informs the Council of the name and address of some

ef/hi yn honni all fod yn berchennog y cerbyd, bydd Rhybudd yn nodi'r manylion a grybwyllywyd yn yr Erthygl flaenorol ddiwethaf yn cael ei anfon at y cyfryw un arall ac at unrhyw un arall y gall y Cyngor o ganlyniad i anfon y Rhybudd at y cyfryw un arall ddod i gredu all fod yn berchennog y cerbyd.

38. Lle nad oes nod cofrestru ar gerbyd y cam cyntaf i'w gymryd gan y Cyngor fydd gwneud cais ysgrifenedig i Brif Swyddog yr Heddlu dros yr ardal sy'n cynnwys y man parcio yn ymholi pwy y mae'r cyfryw swyddog yn ystyried yw perchenog y cerbyd a chyfeiriad y cyfryw un.

39. Yna bydd y Cyngor yn gwneud y fath ymholiadau pellach ynghylch perchenogaeth ag y bydd yn ystyried yn briodol.

40. Pan fydd y Cyngor wedi gwerthu'r cerbyd, bydd y Cyngor yn cymhwys o derbyn iadau'r gwerthiant i dalu neu tuag at dalu unrhyw gostau a gafodd mewn cysylltiad â'i waredu ac unrhyw dâl neu daliad y mae â hawl iddo.

41. Os digwydd nad yw unrhyw gostau o'r fath a wariwyd gan y Cyngor mewn cysylltiad â gwaredu'r cerbyd yn cael eu had-dalu yn rhinwedd yr Erthygl flaenorol ddiwethaf, gall y Cyngor adennill y costau hynny oddi wrth bwy bynnag oedd perchenog y cerbyd yn union cyn ei symud o'r man parcio, ond bod y Cyngor wedi anfon Rhybudd dan Erthygl 36 at y cyfryw un.

42. Bydd unrhyw symiau a dderbynir gan y Cyngor wrth werthu cerbyd, ar ôl tynnu unrhyw swm a gymhwyswyd yn hynny o beth yn rhinwedd Erthygl 41, yn daladwy o fewn cyfnod o flwyddyn ar ôl eu derbyn i unrhyw un fyddai wedi bod yn berchen y cerbyd, heblaw am y fath werthiant, ac i'r graddau na fydd unrhyw symiau o'r fath heb gael eu hawlio o fewn y cyfryw gyfnod bydd iddynt gael eu talu i Gronfa Dreth Gyffredinol y Cyngor.

43. Lle bo'n ofynnol anfon neu lle anfonwyd Rhybudd at rywun dan ddarpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn bydd i'r Rhybudd gael ei anfon trwy bost dosbarthiad a gofnodwyd.

other person who he/she alleges may be the owner of the vehicle, a Notice stating the particulars mentioned in the last preceding Article shall be sent to that other person and to any further person who the Council may in consequence of the sending of the Notice to the said other person be led to believe may be the owner of the vehicle.

38. Where a vehicle does not carry a registration mark the first step to be taken by the Council shall be to apply in writing to the Chief Officer of Police in whose area the parking place is situated enquiring whom that officer considers is the owner of the vehicle and the address of that person.

39. The Council shall then make such further enquiries as to ownership as it thinks fit.

40. Upon the sale of a vehicle by the Council, the Council shall apply the proceeds of sale in or towards the satisfaction of any costs incurred by it in connection with the disposal thereof and of any charge or payment to which it is entitled.

41. In the event that any such costs incurred by the Council in connection with the disposal of the vehicle are not satisfied by virtue of the last preceding Article, the Council may recoup those costs from the person who was the owner of the vehicle immediately before it was removed from the parking place, provided that that person was sent by the Council a Notice under Article 36.

42. Any sums received by the Council on a sale of a vehicle shall, after deducting any sum applied thereabouts by virtue of Article 41, be payable within a period of one year from receipt hereof to any person to whom, but for such sale, the vehicle would have belonged and insofar as any such sums are not claimed within the said period they shall be paid into the General Rate Fund of the Council.

43. Where under the foregoing provisions of this Order a Notice is required to be or may be sent to a person the Notice shall be sent by recorded delivery post.

**RHAN VIII
DIDDYMIADAU**

**PART VIII
REVOCATIONS**


44. Bydd y rhannau hynny o'r Gorchymyn Cydgrynhau Cyngor Sir Ynys Mon (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2007 sy'n cyfeirio at faes parcio Penyrsedd (Llyfrgell) Llangefni, gan gynnwys cynllun Maes Parcio Penyrsedd (Llyfrgell) Llangefni a ymgorfforwyd, yn cael eu diddymu.

DYDDIEDIG 14/11/2016

DATED

CYFLAWNWYD FEL GWEITHRED TRWY
OSOD SÊL CYFFREDIN CYNGOR SIR YNYS
MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY
COUNCIL yng ngwydd:-

EXECUTED AS A DEED BY AFFIXING THE
COMMON SEAL OF CYNGOR SIR YNYS
MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY
COUNCIL in the presence of :-



Cyfreithiwr/Solicitor


ATODLEN / SCHEDULE

Y Mathau o Gerbydau a ganiateir: - Car modur fel y diffinnir hwnnw dan Adran 136(2) (a), motobeic fel y diffinnir hwnnw yn Adran 136(4) a cherbyd i'r methodig fel y diffinnir hwnnw yn Adran 136(5) Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 a cherbydau modur sydd heb fod dros 30 cwts, heb lwyth arnynt ac sydd wedi eu gwneud a'u haddasu yn unswydd i bwrrpas cludo nwyddau.

Dyddiadau ac oriau gweithredu ar lecyn parcio uchod:
Llun – Sul 8yb -8yh

Classes of Vehicle permitted: - Motor Car as defined in Section 136(2) (a), motor cycle as defined in Section 136(4) and invalid carriage as defined in Section 136(5) of the Road Traffic Regulations Act 1984 and motor vehicles not exceeding 30 cwts unladen weight constructed and adapted solely for the purpose of carrying goods.

Days and hours of operation of parking place:-
Monday – Sunday 8am – 8pm



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Maes Parcio Penyrsedd
(Llyfrgell), Llangefni

Penyrsedd (Library) Car Park
Llangefni

CYFNOD AROS HWYAF : 24 awr neu hyd at 6.00y.b. drannoeth, pa un bynnag sydd fyrraf.

MAXIMUM PERIOD OF WAITING: 24 hours or until 6.00a.m. the following day, whichever is the shorter period.

PRISIAU

Hyd at 30 munud 50c

Hyd at 1 awr £1.00

Hyd at 2 awr £1.50

Hyd at 4 awr £2.00

Hyd at 12 awr £3.00

SCALE OF CHARGES

Up to 30 minutes 50p

Up to 1 hour £1.00

Up to 2 hours £1.50

Up to 4 hours £2.00

Up to 12 hours £3.00

Hawlen parcio blynnyddol i'r maes parcio uchod:-

6 mis - £100.00

12 mis - £150.00

Annual parking permit for the above car park:-

6 months - £100.00

12 months - £150.00

Gwahanol ddirwyon mewn grym pan fydd amodau parcio yn cael eu torri:-

Lefel Uwch - £70.00

Lefel Is - £50.00

Differential penalty charges apply when conditions of parking breached:-

Higher Level - £70.00

Lower Level - £50.00

DYDDIEDIG 14/11/2016 DATED

**GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
(LLECYNNAU PARCIO ODDI AR STRYD) (SAFLE MAES PARCIO PENYRORSEDD
(LLYFRGELL) LLANGEFNI) 2016**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
(OFF STREET PARKING PLACES) (PENYRORSEDD (LIBRARY) CAR PARK SITE,
LLANGEFNI) ORDER 2016**

Robyn W Jones
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro /
Legal Services Manager/Deputy Monitoring Officer
Swyddfeydd y Sir/Council Offices, Llangefni, Ynys Mon LL77 7TW

Cyf/Ref: HT-019671-SMJ